



**Uchelgais
Gogledd Cymru
Ambition
North Wales**

**Ynni Lleol Blaengar /
Smart Local Energy**

***ACHOS BUSNES
AMLINELLOL***



**Cynllun Twf
Gogledd Cymru
North Wales
Growth Deal**

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy**ACHOS BUSNES AMLINELLLOL (OBC)**

UWCH BERCHENNOG CYFRIFOL (SRO):	Geraint Edwards
Rheolwr Prosiect:	Elgan Roberts
Sefydliad:	Uchelgais Gogledd Cymru

Fersiwn	Dyddiad	Nodiadau
DR1	10/11/2022	Drafft Cyntaf
DR1.1	29/11/2022	Drafft wedi'i ddiweddarau
DR1.2	22/12/2022	Cyflwynwyd ar gyfer Adolygiad PMO
DR1.3	30/01/2023	Rhannau a ganlyn wedi'u hychwanegu: <ul style="list-style-type: none"> • 2.8 Datblygu'r Opsiwn a Ffariwyd • 5.2 Rheoli'r Gronfa Rhannau a ganlyn wedi'u diweddarau: <ul style="list-style-type: none"> • 1.6 Anghenion Busnes • 4.3 Gofynion Refeniw
DR1.3.1	08/02/2023	Rhannau a ganlyn wedi'u hychwanegu: <ul style="list-style-type: none"> • Crynodeb Gweithredol
DR1.4	24/02/2023	Wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu argymhellion yn dilyn adolygiadau a wnaed gan y PMO, Bwrdd Prosiect, Bwrdd Rhaglen a'r Tîm Adolygu Porth
V1.0	24/02/2023	Wedi'i gyflwyno i'w ardystio gan y Byrddau Prosiect, Rhaglen a Phortffolio
DR2.0	09/03/2023	Man ddiweddariadau a chywiriadau yn dilyn y Byrddau Prosiect, Rhaglen a Portffolio
V1.1	10/03/2023	Wedi gyflwyno i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais

	Enw	Dyddiad
Paratowyd gan:	Rheolwr Prosiect (Elgan Roberts)	Rhag 2022
Adolygwyd gan:	Swyddfa Rheoli Portffolio	Ion 2023
Adolygwyd gan:	Bwrdd Prosiect	Chwe 2023
Adolygwyd gan:	Bwrdd Rhaglen	Chwe 2023
Adolygwyd gan:	Tîm Adolygiad Porth	Chwe 2023
Ardystiwyd gan:	Bwrdd Prosiect	24 Chwe 2023
Ardystiwyd gan:	Bwrdd Rhaglen	01 Maw 2023
Ardystiwyd gan:	Bwrdd Portffolio	03 Mawr 2023
Ardystiwyd gan:	Bwrdd Cyflawni Busnes	14 Maw 2023
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Uchelgais Economaidd	

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol..... 4

Ffigur 1 - Y Broses Datblygu Achos Busnes **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 2 - Model Rhesymeg y Prosiect Ynni Lleol Blaengar5

Ffigur 3 - Egwyddorion dylunio allweddol ar gyfer y Gronfa11

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Crynodeb Gweithredol

Y penderfyniad a geisir

Mae cymeradwyaeth yn cael ei geisio i fwrw ymlaen â'r opsiwn a ffafrir ar gyfer Ynni Lleol Blaengar drwy'r cam caffael a pharatoi'r Achos Busnes Llawn ar gyfer yr ymyrraeth a ganlyn:

Sefydlu cronfa £25m i'w buddsoddi ar draws pob maes ymyrraeth sy'n alinio â'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol. Cronfa sy'n cael ei gweinyddu gan Uchelgais Gogledd Cymru dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd. Cyllid cyfalaf a ddyrannir drwy grantiau, benthyciadau neu offerynnau ariannol eraill, gyda tharged o 75% arian cyfatebol fel cyfartaledd ar draws y gronfa.


Cyflwynir yr Achos Busnes Llawn am gymeradwyaeth yn y Gaeaf 2023/24.

Trosolwg

Diben yr Achos Busnes Amlinellol hwn oedd adnabod yr opsiwn a ffafrir ar gyfer y prosiect Ynni Lleol Blaengar sy'n alinio â nod y prosiect o greu ffyniant yng Ngogledd Cymru drwy gefnogi a galluogi datrysiadau ynni glân a datgarboneiddio.

Mae'r prosiect Ynni Lleol Blaengar yn un o bum prosiect o fewn rhaglen Ynni Carbon Isel Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae £25 miliwn o Gyllid Cyfalaf y Cynllun Twf wedi'i ddyrannu i'r prosiect, gyda tharged o gyfanswm buddsoddiad o £106.2M.

Datblygu'r Achos Busnes - Y Broses Hyd Yma




Ffigur 1 – Datblygu'r Achos Busnes

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Model Rhesymeg y Prosiect



Ffigur 2 - Model Rhesymeg y Prosiect Ynni Lleol Blaengar

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Yr Achos Strategol

Amcanion Gwariant

Mae amcanion gwario y prosiect fel a ganlyn:

Tabl 1 - Amcanion gwario'r prosiect

Amcan Gwariant Gyntaf y Prosiect Creu Swyddi	Creu 156-193 o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru sy'n gysylltiedig â chyflawni a gweithredu datrysiadau ynni glân sy'n cyfrannu at GVA ychwanegol net o £110-134M erbyn 2036.
Ail Amcan Gwariant y Prosiect Buddsoddiad	Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o £101-111M mewn datrysiadau ynni glân yng Ngogledd Cymru erbyn 2036.
Trydydd Amcan Gwariant y Prosiect Arbedion Carbon	Creu 130,000-170,000 tonnelli o arbedion carbon o well effeithiolrwydd a datgarboneiddio systemau ynni yng Ngogledd Cymru gan ddefnyddio amrediad eang o ddatrysiadau erbyn 2036.
Pedwerydd Amcan Gwariant y Prosiect Perchnogaeth Leol	Sefydlu elfen o berchnogaeth leol gryf a chynaliadwy tuag at yr asedau ynni glân newydd a gyflwynir ac a gefnogir drwy sicrhau bod amcan polisi perchnogaeth leol a chydberchnogaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei bodloni neu y rhagorir arni gan bob buddsoddiad prosiect ¹ .

Mae amcanion gwariant y prosiect Ynni Lleol Blaengar (SLE) yn cyfrannu at y Rhaglen Ynni Carbon Isel a'r Amcanion Gwariant Portffolio Strategol o greu swyddi, GVA ychwanegol, cyflawni Buddsoddiad a lleihau Allyriadau Carbon. Felly, mae'r prosiect Ynni Lleol Blaengar yn cefnogi strategaeth y sefydliad ac yn alinio â'r achos strategol a nodir yn Achos Busnes y Rhaglen Ynni Carbon Isel.

Anghenion Busnes

Creu Swyddi - Mae angen creu a diogelu'r nifer uchaf o swyddi carbon isel o ansawdd uchel yng Ngogledd Cymru wrth i ni symud tuag at sero net a sicrhau cyfran deg o'r 25,100 o swyddi carbon isel a ddisgwyllir yng Nghymru erbyn 2050 (Gwaith Ymchwil y Grid Cenedlaethol²). Gallai'r swyddi hyn fod yn rhai i weithredu a rheoli'r datrysiadau neu fod yn swyddi anuniongyrchol yn y gadwyn gyflenwi leol.

Buddsoddiad - Mae angen ymyrraeth gan y Cynllun Twf i ddarparu conglfaen a galluogi buddsoddiad mewn datrysiadau ynni glân sy'n denu ac yn datgloi cyllid ac arian pellach i oresgyn methiannau presennol y farchnad; a buddsoddi mewn datrysiadau ynni glân sydd â'r potensial i ddenu buddsoddiad pellach unwaith y bydd yn weithredol.

Arbedion Carbon - Mae angen ymyrraeth gan Uchelgais Gogledd Cymru i gyfrannu at dargedau datgarboneiddio Llywodraethau'r DG a Chymru a helpu i wyrdroi'r tueddiad o ddefnyddio llai o ddulliau adnewyddadwy yng Nghymru ers 2015 yn sgil methiannau'r farchnad. Gall Gogledd Cymru

¹Yn unol â 'Local and shared ownership of energy projects in Wales: Guidance for developers, local communities & decision-makers'

²[Building the Net Zero Energy Workforce | National Grid Group](#)

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

fod ar flaen y gad gyda'i arbenigedd mewn datrysiadau ynni glân, cadwyn gyflenwi ynni glân gadarn a busnesau sydd wedi datgarboneiddio sy'n gystadleuol.

Perchnogaeth Leol - Mae cyfle am ymyrraeth gan Uchelgais Gogledd Cymru i gynyddu perchnogaeth leol o asedau ynni glân yng Ngogledd Cymru. Mae asedau ynni glân mewn perchnogaeth leol yn rhoi cyfle cryf i gadw cyfoeth yn economi leol gogledd Cymru, cyfrannu at ffyniant a rhoi budd gwirioneddol i gymunedau.

Galw am y Prosiect

Cynhaliodd Uchelgais Gogledd Cymru arolwg ymchwil i'r farchnad yn 2022 i ennyn gwell dealltwriaeth o'r math o brosiectau ynni glân oedd dan ystyriaeth i'w datblygu yng ngogledd Cymru, gan bwy, pa bryd, a'r gefnogaeth gyllido angenrheidiol. O'r 57 ymateb a dderbyniwyd, roedd 92% yn edrych i fuddsoddi yn eu prosiect arfaethedig dros y 4 blynedd nesaf. Daeth 70% o'r ymatebion o fusnesau sector preifat, 19% o sefydliadau cymunedol ac 11% o sefydliadau sector cyhoeddus.

Sgôp Posib

Er mwyn canolbwyntio ar anghenion busnes sy'n benodol i Ogledd Cymru, mae'r sgôp o ymyrraethau posib wedi'u halinio â gweledigaeth Strategaeth Ynni Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r sgôp yn ymdrin â'r meysydd ymyrraeth posib sydd wedi'u hadnabod ar hyn o bryd fel y camau gweithredu gyda'r blaenoriaeth uchaf y gellir eu cymryd i gefnogi'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i'r rhanbarth symud tuag at allyriadau sero net erbyn 2050. Mae'r meysydd ymyrraeth yn syrthio o fewn y pedair thema a nodwyd gan Strategaeth Ynni Gogledd Cymru:

1. Ynni Domestig
2. Ynni Masnachol a Diwydiannol
3. Trafnidiaeth
4. Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

Prif fanteision posib

Mae'r buddion hyn sy'n arwain o'r prif ddeilliannau yn greiddiol i'r prosiect ac wedi'u cysylltu'n uniongyrchol at yr amcanion gwariant:

Tabl 2 - Prif fuddion y prosiect1

Budd	Buddiolwr
Cynnydd mewn cyflogaeth gwerth uchel, yn arbennig ar gyfer merched, pobl ifanc o'r Gogledd a'r rhai o gymunedau gwledig incwm isel (Budd Mesuradwy)	Trigolion G Cymru
Incwm o gynhyrchu ynni (Budd Gwireddu Arian Parod)	Trigolion, busnesau a sefydliadau yng Ngogledd Cymru
Llai o gostau ynni (Budd Gwireddu Arian Parod)	Trigolion, busnesau a sefydliadau yng Ngogledd Cymru
Gostyngiad mewn Allyriadau CO2 (Budd Mesuradwy)	Cymdeithas ledled y DG

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Prif risgiau posib

Dyma'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni deilliannau'r prosiect sy'n bodoli er gwaethaf yr opsiynau sy'n cael eu hystyried yn yr achos economaidd:

Tabl 3 - Prif risgiau'r prosiect

Risgiau
Os bydd diffyg ceisiadau addas ar gyfer y gronfa Ynni Lleol Blaengar, mae risg na fydd Amcanion Gwario'r Prosiect (swyddi, buddsoddiad, arbed carbon a pherchnogaeth leol) yn cael eu cyflawni.
Os nad oes modd trosoli buddsoddiad preifat a chyhoeddus; mae risg na fydd Amcanion Gwario'r Prosiect (swyddi, buddsoddiad, arbed carbon a pherchnogaeth leol) yn cael eu cyflawni.
Os oes diffyg capasiti adnoddau a gallu sgiliau yn y tîm prosiect, rhanbarth, cadwyn gyflenwi a rhanddeiliaid eraill (PMO, Partneriaid, perchnogion allbynnau), mae risg na fydd allbynnau'n cael eu cyflawni o fewn graddfeydd amser y Cynllun Twf.
Os na chaiff buddion prosiectau eu gwireddu yn lleol (swyddi lleol, cyfleoedd cadwyn gyflenwi leol, buddsoddiad lleol), yna mae risg nad yw'r prosiect yn cyfrannu at amcanion y Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru.
Os fydd ymyrraeth arfaethedig y cronfa yn cael ei ddyblygu, neu'n gorgyffwrdd â, ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael i randdeiliaid; mae risg y bydd cyllid y Cynllun Twf yn disodli cyfleoedd i ddod â buddsoddiad ychwanegol i mewn i'r rhanbarth.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Yr Achos Economaidd

Ffactorau llwyddiant hanfodol

Mae ffactorau llwyddo hanfodol wedi'u cytuno ar gyfer y prosiect Ynni Lleol Blaengar:

Tabl 4 - Ffactorau Llwyddiant Hanfodol

Testun y Prif Ffactorau Llwyddiant Hanfodol	Ffactorau Penodol
Addasrwydd Strategol ac Anghenion Busnes	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid iddo wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni amcanion <u>Cynllun Twf Gogledd Cymru</u> a <u>Strategaeth Ynni Rhanbarthol Gogledd Cymru</u> Rhaid iddo gynnig potensial i arwain at fuddsoddiad/cyd-fuddsoddiad Rhaid iddo <u>ategu ymyraethau cenedlaethol a lleol presennol</u> sy'n cyflawni yn erbyn rhaglenni ynni carbon isel Rhaid iddo fod wedi alinio'n glir gydag angen a galw'r farchnad Rhaid iddo gynnal hyblygrwydd a medru addasu'r ymyraethau sydd wedi'u hariannu wrth i'r strategaeth ynni rhanbarthol a'r gyfres ehangach o ymyraethau cenedlaethol a lleol esblygui fodloni marchnad ddeinamig Rhaid iddo gefnogi cyfleoedd i ddefnyddio cynnyrch a dulliau arloesol sy'n cael eu harwain yn lleol Rhaid iddo gefnogi <u>perchnogaeth leol</u> asedau ynni adnewyddadwy a charbon isel (gan drigolion, busnesau a chymunedau Gogledd Cymru) Rhaid iddo greu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a phrofiad cadwyni cyflenwi carbon isel yng Ngogledd Cymru Rhaid iddo gefnogi amcanion Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth y Bwrdd Uchelgais
Gwerth am Arian Posib	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid iddo alluogi cyflawniad deilliannau economaidd (swyddi a buddsoddiad) a deilliannau amgylcheddol (arbedion allyriadau carbon) Rhaid iddo fod y ffordd fwyaf cost-effeithiol i gyflwyno'r gronfa
Capasiti a Gallu Cyflenwyr	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid cael partneriaid cyflwyno fyddai'n fodlon/gallu cyflwyno'r prosiect Rhaid iddynt fod yn ddeniadol i reolwyr/ymgyngorwyr allanol y gronfa, neu fod yn addas i gael eu rheoli'n fewnol
Fforddiadwyedd Posib	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid iddo medru cael ei gyflawni o fewn £25M o gyllid y Cynllun Twf
Cyflawnadwyedd Posib	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid iddo fod yn gwbl weithredol ac wedi buddsoddi holl gyllid y Cynllun Twf erbyn 2035

Gwerthusiad economaidd

Cynhaliwyd gwerthusiad economaidd o'r rhestr fer hon o opsiynau a'r ffordd ymlaen sy'n cael ei ffafrio (a gyflwynir yn yr Achos Amlinellol Strategol):

Tabl 5 - Rhestr fer o opsiynau

Rhestr fer sy'n cael ei bwrw ymlaen at werthusiad economaidd					
Busnes fel Arfer	Gwneud y Lleiafswm - Un Prosiect Diffiniedig £12.5M	Ffordd Ymlaen a Ffafrir - Cronfa Fuddsoddi Carbon Isel Agored	Opsiwn Amgen - Nifer fechan o Brosiectau Diffiniedig	Opsiwn Amgen - Cronfa Fuddsoddi sy'n Canolbwyntio ar Un Maes Buddsoddi	Opsiwn Amgen - Cyllido drwy Grantiau a Benthyciadau yn unig
Dim gweithgarwch ychwanegol wedi'i gyllido	£12.5M wedi'i fuddsoddi mewn un prosiect; partner lleol neu	Cronfa £25M i'w buddsoddi ar draws pob maes sy'n alinio â'r	£25M wedi'i fuddsoddi mewn 1-3 o brosiectau carbon isel ar	Cronfa £25M i'w buddsoddi ar draws un maes wedi'i dargeddu	Cronfa £25M i'w buddsoddi ar draws pob maes sy'n alinio â'r

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

drwy'r Cynllun Twf	genedlaethol wedi'i gomisiynu i gyflawni; cyllido gan grant mewn cyfnodau 3 blynedd; gofyniad am 50% o arian cyfatebol	RES; wedi'i gweinyddu gan bartner lleol; cyllid yn cael ei ddyrannu dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd; cyllid yn cael ei gynnig drwy grantiau, benthyciadau neu offerynnau ariannol eraill, gyda gofyniad am 75% o arian cyfatebol fel cyfartaledd ar draws y gronfa	raddfa fawr; partner lleol neu genedlaethol wedi'i gomisiynu i gyflawni; cyllido gan grant mewn cyfnodau o 3 blynedd; gyda gofyniad am 75% o arian cyfatebol ar draws y prosiect llawn	o'r RES; wedi'i gweinyddu gan bartner lleol; cyllid yn cael ei ddyrannu dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd; cyllid yn cael ei gynnig drwy grantiau, benthyciadau neu offerynnau ariannol eraill, gyda gofyniad am 75% o arian cyfatebol fel cyfartaledd ar draws y gronfa	RES; wedi'i gweinyddu gan bartner lleol; cyllid yn cael ei ddyrannu dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd; cyllid yn cael ei gynnig drwy grantiau neu fenthyciadau, gyda gofyniad am 75% o arian cyfatebol fel cyfartaledd ar draws y gronfa
--------------------	--	--	--	--	--

Mae Tabl 6 isod yn nodi canlyniadau'r gwerthusiad:

Tabl 6 - Crynodeb o werthusiad economaidd y rhestr fer o opsiynau

Ffactor	BAU	Gwneud y Lleiafswm	Ffordd Ymlaen a Ffafir	Opsiwn Amgen	Opsiwn Amgen	Opsiwn Amgen
Disgrifiad o'r opsiwn	Busnes fel Arfer	Un Prosiect Diffiniedig £12.5M	Cronfa Fuddsoddi Carbon Isel Agored (Senario A)	Nifer fechan o Brosiectau Diffiniedig	Cronfa Fuddsoddi sy'n Canolbwynti o ar Un Maes Buddsoddi	Cyllido drwy Grantiau a Benthyciadau yn unig
Dadansoddiad meintiol						
Cyfanswm costau sector cyhoeddus (£m NPV)	0	11.5	22.4	21.8	24	22.3
Cyfanswm buddion cymdeithasol ariannol (£m NPV)	0	22	87.1	43.7	82.9	74.2
Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (£m NPV)	0	10.5	64.7	21.9	58.9	51.9
Cymhareb budd-cost (BCR) - Gogledd Cymru a'r DG	-	1.9	3.88	2.1	3.45	3.33
Buddion meintiol arwyddocaol						
Nifer y prosiectau a gefnogwyd	0	1	104	3	82	182
Cyfanswm y swyddi ychwanegol a grëwyd	0	65	229	131	235	196
Arbedion o'r Prosiectau Effeithiolrwydd Ynni (£m NPV)	0	2.8	13.1	4.2	9.6	16.5
Arbedion Carbon (tCO2)	0	30,000	149,300	48,600	132,500	168,500
Arbedion Carbon (£m NPV)	0	7.1	35.6	11.5	31.6	40

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Yr Opsiwn a Ffafir


Yn seiliedig ar werthusiad y rhestr fer o opsiynau, cadarnheir mai'r dull a ddewiswyd i fwrw ymlaen ag ef fel yr Opsiwn a Ffafir yw'r ffordd ymlaen a ffafir gan y SOC; Cronfa Buddsoddi Carbon Isel Agored £25m.

Yr Opsiwn a Ffafir - Cronfa Fuddsoddi Carbon Isel Agored

Cronfa £25M i'w buddsoddi ar draws pob maes ymyrraeth sy'n alinio â'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol. Cronfa sy'n cael ei gweinyddu gan Uchelgais Gogledd Cymru dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd. Cyllid cyfalaf a ddyrennir drwy grantiau, benthyciadau neu offerynnau ariannol eraill, gyda tharged o 75% arian cyfatebol fel cyfartaledd ar draws y gronfa

Datblygu'r Opsiwn a Ffafir

Defnyddiwyd yr egwyddorion dylunio allweddol a ganlyn i danategu datblygiad yr opsiwn a ffafir sy'n alinio ag amcanion gwario'r prosiect a'r ffactorau llwyddiant hanfodol:



Ffigur 3 - Egwyddorion dylunio allweddol ar gyfer y Gronfa

Mae'r opsiwn a ffafir ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Carbon Isel Agored wedi'i nodi isod. Aethpwyd ati i ddylunio'r opsiwn a ffafir yn fanwl drwy adeiladu ar y strategaeth ar gyfer y gronfa a ddatblygwyd gan y tîm prosiect, a chyda mewnbwn gan weithdai rhan-ddeiliaid allweddol:

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Tabl 7 - Datrysiad arfaethedig ar gyfer y gronfa

Datrysiad y Gwasanaeth	Cronfa Ymbarél £25m		
	Is-gronfa Trydydd Sector	Is-gronfa Busnes	Is-gronfa Cynlluniau Mawr
Targed yr Is-gronfa	Sefydliadau nid-er-elw a grwpiau cymunedol sy'n ceisio buddsoddiad i: <ul style="list-style-type: none"> Gynhyrchu ynni adnewyddadwy a/neu leihau costau Darparu ynni i grwpiau dan anfantais neu grwpiau sy'n wynebu heriau economaidd 	Darparu cyllid dyled i fusnesau SME wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru sy'n: <ul style="list-style-type: none"> chwilio am gyllid i ddatgarboneiddio, cynhyrchu ynni adnewyddadwy neu leihau costau gweithredol ddarparwyr lleol o ddatrysiadau ynni adnewyddadwy/datgar boneiddio 	Buddsoddiad mewn prosiectau mwy sy'n gysylltiedig â ynni sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru fel bod modd cyflawni trothwyon perchnogaeth, ymdrin â methiannau'r farchnad ac a fyddai'n briodol i gael eu hariannu gan amrediad o fuddsoddwyr
Amrediad Buddsoddi Unigol Cyllid y Cynllun Twf	£50k-£150k	£50k-£250k	£4m-£6m
Mathau o Brosiectau	<ul style="list-style-type: none"> Effeithlonrwydd Ynni Retrofit Cartref/Cymunedol Cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan (gwres a thrydanol) Datrysiadau Ynni Blaengar 	<ul style="list-style-type: none"> Effeithlonrwydd Ynni Gwelliannau i weithrediad y Busnes Cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan-canolog (gwres a thrydanol) Datrysiadau Ynni Blaengar 	<ul style="list-style-type: none"> Solar ar Raddfa Fawr Ynni Gwynt ar y Tir Ynni Morol Datrysiadau Ynni Blaengar
Hyd y gronfa	5 mlynedd (opsiwn i ymestyn yr is-gronfeydd os oes angen)		
Cyllid y Cynllun Twf wedi'i Ddyrannu	£5,000,000	£8,000,000	£12,000,000

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Yr Achos Masnachol

Bydd y prosiect yn dilyn strategaeth fasnachol a rheolau caffael cyhoeddus Uchelgais Gogledd Cymru fel y nodir yn Achos Busnes y Portffolio. Bydd egwyddorion caffael Uchelgais Gogledd Cymru yn tanatagu'r gweithgarwch masnachol a chaffael o fewn y prosiect hwn.

Gweithgareddau Caffael

Dyma'r gweithgareddau caffael i gefnogi cynhyrchiad yr Achos Busnes Llawn:

Tabl 8 - Gweithgareddau caffael i gefnogi'r FBC

Allbynnau	Angen Arbenigwr (Rôl)	Cylch Gwaith
Cynllun Rheoli'r Gronfa Terfynol gan gynnwys y Strategaeth Buddsoddi	Ymgynghorydd (cefnogaeth i'r FBC)	Profi'r Farchnad yn Anffurfiol am gefnogaeth Ymgynghorwyr ac Arbenigwr Cronfa posib i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn
	Ymgynghorydd y Gronfa	Rhoi mewnbwn i Gynllun Rheoli'r Gronfa a'r Strategaeth Buddsoddi
	Ymgynghorydd Cyfreithiol	Cynghori ar ystyriaethau masnachol, y model gweithredu ac ystyriaethau rheoli cymorthdaliadau
	Arbenigwr Bioamrywiaeth ac Allyriadau	Integreiddio'r fethodoleg yn y strategaeth buddsoddi

Dyma'r gweithgareddau caffael i gefnogi sefydliad a gweithrediad y gronfa unwaith y bydd cymeradwyaeth i'r FBC wedi'i gael:

Tabl 9 - Gweithgareddau caffael i sefydlu a gweithredu'r gronfa

Allbwn / Gwasanaethau	Angen Arbenigwr (Rôl)	Cylch Gwaith
Platfform Ymgeisio	Dylunydd Gwe	Datblygu platfform ar-lein addas i wneud ymholiadau ac ymgeisio am gyllid
Gweithredu'r Gronfa	Ymgynghorydd y Gronfa	Darparu'r rôl ymgynghorydd y gronfa ar gyfer y gronfa
	Ymgynghorydd Cyfreithiol	Darparu cyngor cyfreithiol i'r gronfa a pharatoi dogfennau cyfreithiol safonol

Gallu'r Farchnad i Gyflawni

Cefnogaeth gan Ymgynghorydd

Llwyddwyd i gaffael cefnogaeth ymgynghorydd arbenigol i helpu gyda datblygu'r OBC heb unrhyw broblem. Mae hyn yn rhoi hyder i ni y gellir caffael cefnogaeth debyg er mwyn datblygu'r FBC o'r farchnad.

Ymgynghorydd y Gronfa

Gwnaed gwaith ymchwil ac ymgysylltu cychwynnol gyda chyflenwyr a allai gyflwyno'r gofyniad Ymgynghorydd y Gronfa i ddarparu dealltwriaeth o'r sail cyflenwyr posib. Mae cyflenwyr posib wedi'u hadnabod. Mae'r gwaith ymchwil ac ymgysylltu cychwynnol yn awgrymu bod awch posib yn y farchnad am wasanaethau Ymgynghorydd Cronfa.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Ymgynghorydd Cyfreithiol

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru'n defnyddio trefniant cytundebol presennol drwy Gyngor Gwynedd i ddefnyddio gwasanaethau cyfreithiol allanol yn ôl y galw, fyddai'n golygu bod modd diogelu cyflenwr yn bur gyflym drwy ddefnyddio briff a sgôp y gwasanaethau.

Arbenigwr Bioamrywiaeth ac Allyriadau

Bydd cefnogaeth dechnegol arbenigol yn cael ei chaffael i adeiladu ar y fethodoleg Bioamrywiaeth ac Allyriadau a rhoi cyngor ar y ffordd orau i integreiddio'r fethodoleg yn y Strategaeth Fuddsoddi. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymgysylltu â nifer o ymgynghoriaethau technegol/peirianeg yn y gorffennol ar brosiectau eraill sydd â'r gallu i gyflwyno'r math hwn o waith. Bydd Prifysgolion partner hefyd yn cael eu cynnwys i ystyried a fydd modd cynorthwyo gyda'r math yma o weithgaredd.

Dylunydd gwe

Mae cyfle posib i ddefnyddio darparwr gwasanaeth gwefan presennol Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu platfform/porth ar-lein i wneud ymholiadau ac ymgeisio am gyllid drwy wefan Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cael ei sgopio unwaith y bydd ymgynghorydd y gronfa wedi'i sicrhau.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Yr Achos Ariannol

Y cyllid sydd ar gael

Mae cyllid Cynllun Twf o £25M ar gael ar gyfer y prosiect hwn. Bydd pecyn cyllid y Cynllun Twf yn darparu cyllid cyfalaf heb unrhyw gyllid refeniw yn cael ei ddarparu ar gyfer prosiectau.

Mae cyfanswm targed buddsoddi o £106.2m ar gyfer y prosiect hwn. Mae tabl 10 yn nodi'r targed arfaethedig am arian cyfatebol ar gyfer pob is-gronfa a'r ffynonellau posib o arian cyfatebol a buddsoddiad pellach i gyflawni cyfanswm y targed buddsoddi.

Tabl 10 - Ffynonellau posib o arian cyfatebol

	Targedau arian cyfatebol cychwyn nol	Ffynonellau'r arian cyfatebol cychwynnol (fe allai'r ffynonellau newid dros amser)	Ffynonellau buddsoddiad pellach	Camau Gweithredu i yrru buddsoddiad allanol
Cronfa Trydydd Sector	50%	<ul style="list-style-type: none"> Grantiau Sector Cyhoeddus Cronfa Ynni Lleol (Banc Datblygu Cymru) Cyfranddaliadau Cymunedol Bancio Cymunedol Robert Owen Arian cyfatebol yr ymgeisydd 	<ul style="list-style-type: none"> Cyllid Cynllun Twf wedi'i ailgylchu drwy ad-daliadau benthyciadau ac enillion ar ecwiti Incwm o brosiectau yr ail-fuddsoddiwy ynddynt yn lleol 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfleoedd cyfeirio i ymgeiswyr Ymgysylltiad gweithredol rhan-ddeiliaid gyda chyllidwyr eraill Sefydlu partneriaethau ac/neu gytundebau â chyllidwyr a buddsoddiwy eraill lle bo hynny'n briodol
Cronfa Busnes	65-75%	<ul style="list-style-type: none"> Cyllid y busnes ei hun Cronfa Datgarboneiddio (Banc Datblygu Cymru) British Business Bank Banciau'r Stryd Fawr Amazon Climate Pledge Fund 		
Cronfa Cynllun Mawr	65-75%	<ul style="list-style-type: none"> Datblygwr Ynni Adnewyddadwy Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Banc Datblygu Cymru British Business Bank Datblygwr Ynni Adnewyddadwy i Gymru British Infrastructure Bank Cronfa Twf Glân Bridges Sustainable Growth Funds 		

Crynodeb ariannol ar gyfer y prosiect (Blwyddyn 0 = 2023/24)

Tabl 11 - Crynodeb ariannol2

Blwyddyn / £'m	0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	Cyfanswm
Costau Sefydlu	(0.225)	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	(0.225)
Buddsoddiad Cyfalaf	-	(1.5)	(3.0)	(9.25)	(9.25)	(2.0)	-	-	-	-	-	(25.0)
Costau Rhedeg	(0.03)	(0.12)	(0.12)	(0.12)	(0.12)	(0.12)	(0.04)	(0.02)	(0.02)	(0.02)	(0.02)	(0.75)
Incwm Refeniw	-	-	0.40	0.60	0.56	0.41	0.24	0.12	0.03	0.02	0.01	2.40

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Ffynonellau Ariannol

Tabl 12 - Ffynonellau Ariannol

Costau'r Prosiect	Ffynhonnell Ariannu Arfaethedig
Costau Sefydlu	Cyllidebau datblygu prosiect a staffio'r PMO
Buddsoddiad Cyfalaf	Cyllid y Cynllun Twf
Costau Gweithredu	Cronfeydd wrth gefn prosiectau PMO ar gyfer blynyddoedd 0-1 ac Incwm Refeniw'r gronfa ar gyfer blynyddoedd 2-10

Yr Achos Rheoli

Y Tîm Prosiect

Rheolir y prosiect Ynni Lleol Blaengar yn unol â Fframwaith Rheoli Prosiect Uchelgais Gogledd Cymru sy'n nodi sut fydd y prosiect yn cael ei gyfeirio, ei reoli, ei ddiffinio a'i gyfathrebu.

Mae gan y prosiect Ynni Lleol Blaengar reolwr prosiect llawn amser gyda chefnogaeth y Swyddfa Rheoli Portffolio. Hefyd, mae cefnogaeth ar gael gan aelodau'r Bwrdd Prosiect a Rhaglen, fydd yn darparu cefnogaeth uniongyrchol ac/neu mynediad at gefnogaeth benodol drwy'r sefydliad neu'r sector y maent yn ei gynrychioli.

Cefnogaeth allanol

Mae'r prosiect wedi defnyddio arbenigwyr wrth ddatblygu strategaethau a'r achos busnes a bydd yn parhau i gyflogi arbenigwyr yn ystod y cam gweithredu i ymdrin â'r meysydd allweddol a ganlyn:

- Arbenigedd modelu economaidd
- Strwythurau ariannu ac arbenigedd modelu ariannol
- Arbenigedd cyfreithiol

Cerrig Milltir y Prosiect

Mae prif weithgareddau a cherrig milltir y prosiect wedi'u nodi yn nhabl 13 a chynllun atodlen y prosiect isod.

Tabl 13 - Cerrig milltir y prosiect³

Carreg Filltir y Prosiect	Dyddiad
Cymeradwyo'r OBC	Mawrth 2023
Cymeradwyo'r FBC	Hydref 2023
Lansio'r gronfa	Diwedd 2023/24
Cau'r gronfa*	Diwedd 2028/29
Gwerthusiad terfynol	Diwedd 2033

Cynlluniau Prosiect Allweddol

Dyma'r cynlluniau prosiect allweddol a gynhyrchwyd yn benodol ar gyfer y prosiect hwn:

Tabl 14 - Cynlluniau prosiect

Cynllun Ymgysylltu â Rhan-ddeiliaid	Yn cynnwys cofrestr o ran-ddeiliaid ac yn nodi sut mae rhan-ddeiliaid yn cael eu mapio gyda chynllun manwl ar gyfer ymgysylltu â rhan-ddeiliaid unigol neu grŵp o ran-ddeiliaid.
Cynllun Rheoli'r Gronfa	Yn nodi'r Strategaeth Buddsoddi, trefniadau Llywodraethu a Rheoli a'r prosesau gweithredol ar gyfer y Gronfa.
Cynllun Gwireddu Buddion	Yn nodi'r cynllun i reoli a gwireddu buddion y prosiect.
Cofrestr Risg	Mae log RAID y prosiect yn cynnwys y gofrestr risg sy'n cael ei hadolygu a'i diweddarau yn rheolaidd.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ynni Lleol Blaengar / Smart Local Energy

Cynllun Gwerthuso ar ôl y Prosiect	Cynllun Monitro a Gwerthuso penodol i'r prosiect i werthuso p'un a yw'r prosiect wedi cyflawni y deilliannau a'r buddion a ragwelwyd.
---	---

Diwedd y Crynodeb Gweithredol
